# Datganiad Newyddion

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

Cyhoeddwyd: Ionawr 2003

**AROLWG CYFFREDINOL O FFINIAU ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU**

Mae'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru wedi cyhoeddi arolwg o ffiniau yr holl etholaethau seneddol yng Nghymru.

Mae Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolwg o gynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin a chyflwyno adroddiad i'r Dirprwy Brif Weinidog ymhen dim llai nag wyth a dim mwy na deuddeng mlynedd o ddyddiad cyflwyno eu hadroddiad diwethaf o'r fath. Cyflwynodd y Comisiwn eu hadroddiad diwethaf ar 16 Rhagfyr 1994 felly rhaid i'r adroddiad nesaf gael ei gyflwyno erbyn 16 Rhagfyr 2006.

Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae Atodlen 1 (Etholaethau'r Cynulliad a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolygon o ranbarthau'r Cynulliad ar yr un pryd â'r arolwg cyffredinol o Etholaethau Seneddol.

Bydd y Comisiwn yn ffurfio eu hargymhellion amodol ar gyfer grŵp o etholaethau drwy ddilyn y rheolau ar gyfer ailddosbarthu seddi a nodwyd yn Atodlen 2 o Ddeddf 1986 (a atgynhyrchwyd drosodd). Ar yr un pryd, bydd y Comisiwn hefyd yn ffurfio eu hargymhellion amodol ar gyfer Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad drwy ddilyn y rheolau a nodwyd yn Atodlen 1 o Ddeddf 1998 (a atgynhyrchwyd drosodd). Cyhoeddir hysbysiad o'r argymhellion hynny mewn o leiaf un papur newydd a gaiff ei ddosbarthu o fewn yr etholaethau yr effeithir arnynt gan nodi ble y gellir archwilio'r argymhellion a ddangosir ar fap.

Gellir gwneud cynrychioliadau o fewn mis i gyhoeddi'r hysbysiad a chynhelir ymchwiliad lleol os derbynnir cynrychioliadau yn gwrthwynebu'r cynigion gan awdurdod lleol sydd â diddordeb neu gan gorff o 100 neu fwy o etholwyr. Bydd y Comisiwn yn trefnu i Gomisiynydd Cynorthwyol gynnal yr ymchwiliad.

Bydd y Comisiynydd Cynorthwyol yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn a allai benderfynu cyhoeddi cynigion diwygiedig yn dilyn yr un weithdrefn ond nid yw'n orfodol arnynt gynnal ymchwiliad pellach. Os bydd y Comisiwn yn penderfynu addasu eu hargymhellion diwygiedig cyn cyflwyno eu cynigion terfynol i'r Ysgrifennydd Cartref, caiff y weithdrefn ar gyfer cyhoeddi a gwahodd cynrychioliadau ei hailadrodd. Bydd yr adroddiad a fydd yn cynnwys argymhellion terfynol y Comisiwn yn berthnasol i bob etholaeth yng Nghymru. Ni chaiff adroddiadau ar wahân eu cyflwyno ar gyfer unrhyw grŵp o etholaethau.

Comisiwn Ffiniau i Gymru Tŷ Caradog 1-6 Plas Sant Andreas Caerdydd CF10 3BE
Boundary Commission for Wales Caradog House 1-6 St. Andrews Place Cardiff CF10 3BE
☎ 029 20395031 Ffacs/Fax 029 20395250
e-mail/e-bost bcomm.wales@lgbc-wales.gov.uk Web Site/Gwefan www.bcomm-wales.gov.uk

Dyletswydd y Dirprwy Brif Weinidog fydd cyflwyno adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd ynghyd â Gorchymyn drafft yn y cyfrin Gyngor a fydd yn gweithredu'r argymhellion gweithredol naill ai gyda addasiadau neu hebddynt. Caiff y Gorchymyn drafft ei gyflwyno i'r ddau Senedd-dŷ i'w cymeradwyo ac, wedi iddo gael ei wneud, bydd yr etholaethau newydd yn digwydd yn ystod yr etholiad cyffredinol nesaf.

Bydd gwybodaeth bellach ar gael mewn llyfryn gwybodaeth o'r enw Arolwg o'r Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad yng Nghymru a gyhoeddir ar ddiwedd mis Chwefror 2003.

**CYSYLLTIADAU**

Gellir cysylltu â'r Comisiwn yn y cyfeiriad canlynol:-


Mr Edward Lewis
Ysgrifennydd, Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas St Andrew
Caerdydd, CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs: 029 2039 5250
E-bost: bcomm.wales@lgbc-wales.gov.uk
Gwefan: www.bcomm-wales.gov.uk